**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Strategaeth a Chyllid ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
10 Ionawr 2025

**Rhan 1**

## 1 Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (“Rheoliadau 2025”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018, a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2025 yn:

- ymestyn cymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu i bersonau penodol sy'n setlo yn y DU;
- estyn cymhwystra am gymorth, statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu i wladolion Wcrain ac aelodau o'u teuluoedd sy'n cael caniatâd i ddod i'r DU o dan Gynllun Estyn Caniatâd Wcrain;
- sicrhau cymhwystra am gymorth ffioedd, statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu i rai Chagosiaid nad ydynt wedi preswylio am dair blynedd yn y DU, yr Ynysoedd a thiriogaethau tramor Prydeinig penodedig oherwydd na allant breswylio yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India;
- gwneud newidiadau technegol i alluogi myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn ryngosod i fod yn gymwys am Grant i Fyfyrwyr Anabl er mwyn cael mynediad at gymorth technegol a gwaith atgyweirio ar gyfer offer a ddarparwyd neu a gymeradwywyd mewn blwyddyn academaidd flaenorol;
- gwneud newidiadau technegol i gadw polisi ar gyfer materion penodol eraill; a
- dileu cyfeiriadau diangen at y cynllun gweinyddol 'KESS 2'.

## 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud cywiriadau technegol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, mewn cysylltiad â diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau hynny gan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 yr adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad arnynt (mae SL(6)431 yn cyfeirio at hyn).

## 3 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2025 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.7 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system o gymorth ariannol a diogelu ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU, a myfyrwyr penodol eraill sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghymru.

*Cymhwystra ar gyfer cymorth myfyrwyr a mesurau diogelu ffioedd dysgu ar ôl setlo yn y DU*

4.2 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd fel y bydd personau sy'n setlo yn y DU yn ystod blwyddyn academaidd o'u cwrs yn dod yn gymwys am gymorth ariannol a diogelu ffioedd (hynny yw, y cap ar ffioedd dysgu drwy Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 a statws ffioedd cartref drwy Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007). Mae hyn yn darparu ar gyfer cymaroldeb o ran polisi rhwng y rhai sydd wedi setlo drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a all ddod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd cwrs, a'r rhai sy'n setlo drwy lwybrau eraill.

*Gwladolion Wcráin – Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin*

4.3 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd i sicrhau parhad y cymorth i wladolion Wcrain ac aelodau o'u teuluoedd sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan y Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin newydd sy'n darparu 18 mis yn ychwanegol i'r rhai a gafodd ganiatâd yn flaenorol i ddod i mewn neu i aros yn y DU o dan un o'r Cynlluniau Wcráin presennol.

*Dinasyddion Prydeinig a anwyd yn Ynysoedd Chagos a'u disgynyddion uniongyrchol sydd hefyd yn Ddinasyddion Prydeinig (y cyfeirir atynt fel Chagosiaid)*

4.4 Cafodd y Chagosiaid eu tynnu o Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India / Chagos Archipelago gan Lywodraeth y DU ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au. Rhoddodd Deddf Tiriogaethau Tramor Prydeinig 2002 ddinasyddiaeth Brydeinig i Chagosiaid a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India a'u plant i gydnabod

eu statws unigryw, ac estynnodd Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 hyn fel y gallai holl ddisgynyddion uniongyrchol pobl a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India wneud cais i ddod yn Ddinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydeinig ac yn Ddinasyddion Prydeinig.

4.5 Ar hyn o bryd, efallai na fydd myfyrwyr o dras Chagosaidd y rhoddwyd Dinasyddiaeth Brydeinig iddynt o dan y trefniadau a gyflwynwyd yn 2022 yn gymwys am gymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd gan nad ydynt yn gallu bodloni'r gofyniad o fod wedi preswylio'n arferol am dair blynedd yn y DU, yr Ynysoedd a thiriogaethau tramor Prydeinig penodedig, am nad ydynt, yn ôl y diffiniad, yn gallu preswylio ar Ynysoedd Chagos.

4.6 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd i alluogi Chagosiaid i fod yn gymwys am gymorth ffioedd dysgu, statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu yn unol â'r polisi presennol ar gyfer personau yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig sydd wedi setlo yn y DU. Bydd y grŵp hwn o fyfyrwyr yn cael eu trin fel pe baent wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig penodedig am y cyfnod tair blynedd pan nad ydynt wedi bod yn preswylio'n arferol yn y DU a'r Ynysoedd, gan ddileu'r rhwystr rhag bod yn gymwys.

*Grant teithio i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal*

4.7 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i adlewyrchu'r polisi presennol nad yw'n ei gwneud yn ofynnol asesu incwm myfyriwr â phrofiad o fod mewn gofal wrth wneud cais am grant tuag at ei gostau teithio, sydd ar gael mewn rhai amgylchiadau. Rhaid i fyfyrwyr wneud cyfraniad tuag at eu costau teithio yn seiliedig ar incwm eu haelwyd. Bydd myfyriwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cymhwyso'n awtomatig ar gyfer y cyfraniad is o £303, yn hytrach na'r cyfraniad uwch o £1,000 sy'n daladwy gan y rhai o gefndiroedd incwm uwch.

*Cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 ('KESS 2')*

4.8 Roedd cynllun KESS 2 yn darparu cyfleoedd i astudio ar gyfer Doethuriaeth a Meistr Ymchwil wedi'u hariannu ar draws Cymru. Dechreuodd y rownd olaf o brosiectau a ariannwyd ym mis Ionawr 2023 a daeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, ac mae'r cynllun wedi cau bellach. Mae diwygiadau technegol yn dileu cyfeiriadau diangen at KESS 2 yn Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

*Unigolion nad yw eu domisil yn y DU*

4.9 Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn cynnwys cyfeiriadau at incwm (at ddiben cyfrifo incwm aelwydydd) nad yw'n rhan o incwm trethadwy unigolyn oherwydd nad yw ei ddomisil yn y DU at ddibenion treth.

4.10 Yng Nghyllideb y Gwanwyn 2024, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai Llywodraeth y DU yn diddymu'r system dreth bresennol ar gyfer unigolion annomisiliedig ac yn cyflwyno system breswylio yn ei lle. O 6 Ebrill 2025 ymlaen, bydd y sail bresennol ar gyfer trethiant yn cael ei diddymu ar gyfer unigolion annomisiliedig sy'n preswylio yn y DU.

4.11 Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud diwygiadau technegol i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr i ddileu cyfeiriad at statws treth annomisiliedig. Nid oes unrhyw newid i bolisi gan fod pob incwm tramor eisoes yn cael ei asesu fel rhan o incwm aelwyd ymgeisydd at ddibenion penderfynu ar hawl i gymorth myfyrwyr.

*Grantiau i Fyfyrwyr Anabl yn ystod blwyddyn ryngosod*

4.12 Mae Rheoliadau 2025 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i alluogi myfyrwyr a oedd gynt yn derbyn y Grant i Fyfyrwyr Anabl ac sydd bellach yn ymgymryd â blwyddyn ryngosod, i fod yn gymwys am y Grant er mwyn gallu cael mynediad at gymorth technegol ar gyfer offer a gymeradwywyd neu a ddarparwyd yn flaenorol gan Weinidogion Cymru drwy'r Grant mewn perthynas â blwyddyn academaidd o'u cwrs presennol, neu yn ystod cwrs blaenorol lle mae'r myfyriwr wedi derbyn cadarnhad gan Weinidogion Cymru y bydd ei Grant yn cael ei drosglwyddo i'w gwrs presennol.

4.13 Bydd myfyrwyr hefyd yn gallu cael unrhyw eitem o offer a gymeradwywyd neu a ddarparwyd yn flaenorol (gan gynnwys offer a brynwyd gan y myfyriwr ond a gymeradwywyd at ddibenion y Grant i Fyfyrwyr Anabl) wedi'i hatgyweirio neu eitem gyfatebol newydd yn ei lle (neu eitem debyg os nad oes eitem gyfatebol ar gael), a bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r cymorth technegol, yr atgyweiriadau a/neu'r eitemau newydd yn cael eu hariannu yn y flwyddyn academaidd y mae eu hangen.

## 5 Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Mae nifer o'r diwygiadau yn dechnegol eu natur ac yn ofynnol i weithredu polisi presennol neu i ddileu darpariaeth reoleiddiol ddiangen. Mae diwygiadau sy'n estyn cymhwystra yn cefnogi polisi 'Cenedl Noddfa' presennol Llywodraeth Cymru.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2025.

**6. Yr opsiynau**

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

6.1 Os na wneir Rheoliadau 2025, byddai'r goblygiadau fel a ganlyn:

- ni fyddai unigolion sy'n setlo yn y DU yn ystod blwyddyn academaidd eu cwrs yn gymwys am gymorth, y cap ffioedd dysgu na statws ffioedd cartref. Ni fyddai cymaroldeb o ran polisi rhwng y rhai sydd wedi setlo drwy Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a allai ddod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd cwrs, a'r rhai sy'n setlo drwy lwybrau eraill;
- ni fyddai pobl sy'n cael caniatâd i aros yn y DU o dan y Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin newydd ac aelodau o'u teulu yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr, y cap ar ffioedd dysgu na statws ffioedd cartref, a allai eu hatal rhag dechrau cwrs addysg uwch. Byddai myfyrwyr sy'n parhau ar gyrsiau addysg uwch presennol yn cael eu hatal rhag bod yn gymwys am gymorth unwaith y bydd eu caniatâd (o dan un o'r Cynlluniau Wcráin presennol) yn dod i ben, sy'n groes i bolisi Llywodraeth Cymru o gefnogi'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel;
- mae'n bosibl na fydd Chagosiaid yn gymwys am gymorth ffioedd dysgu, statws ffioedd cartref na'r cap ar ffioedd dysgu oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth;
- ni fyddai'r rheoliadau yn gweithredu'r polisi presennol yn gywir, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol; a
- ni fyddai myfyrwyr sy'n derbyn Grant i Fyfyrwyr Anabl yn gymwys i gael grantiau o'r fath yn ystod blwyddyn ryngosod er mwyn gallu cael mynediad at gymorth technegol, gwaith atgyweirio neu amnewid offer angenrheidiol a ddarparwyd neu a gymeradwywyd ar eu cyfer yn flaenorol o dan grantiau o'r fath.

*Opsiwn 2. Gwneud y Rheoliadau*

6.2 Mae gwneud Rheoliadau 2025 yn sicrhau bod y goblygiadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi a bod polisi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddiweddaru a'i weithredu'n gywir. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

## 7. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Byddai gadael y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr presennol yn eu lle yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr.

*Opsiwn 2. Gwneud Rheoliadau 2025*

7.2 Mae ymestyn cymhwystra am gymorth, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu i bobl sy'n setlo yn y DU yn ystod blwyddyn academaidd o'u cwrs yn sicrhau cymaroldeb o ran polisi rhwng y rhai sydd wedi setlo drwy Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a all ddod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd cwrs, a'r rhai sy'n setlo drwy lwybrau eraill. Mae manteision addysg uwch yn cael eu cynnig yn briodol, ac mae triniaeth gyfartal rhwng grwpiau. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, i'r economi ac i gymdeithas wedi'u hen sefydlu. Disgwylir i'r niferoedd a'r costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru wrth estyn cymhwystra fod yn fach iawn; fodd bynnag, nid oes sail ystadegol ddibynadwy ar gyfer amcangyfrif unrhyw gostau ychwanegol.

7.3 Mae ymestyn cymhwystra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu, yn sicrhau parhad y cymorth i wladolion Wcrain ac aelodau o'u teuluoedd y rhoddir caniatâd iddynt aros yn y DU o dan Gynllun Estyn Caniatâd Wcráin.

7.4 Cyhoeddir data ar nifer y fisas a roddir o dan Gynlluniau'r Wcráin[1] gan y Swyddfa Gartref. Ar 8 Hydref 2024, dyma nifer y fisâu lle'r oedd y noddwr yng Nghymru:

- 5,291 wedi'u noddi gan unigolyn; a
- 4,621 wedi'u noddi gan Lywodraeth Cymru.

7.5 Mae nifer presennol y myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr o dan y categori Cynlluniau Wcráin, yn ôl y math o gymorth i fyfyrwyr, fel a ganlyn (ar 12 Medi 2024):

[1] https://www.gov.uk/guidance/ukraine-sponsorship-scheme-visa-data-by-country-upper-and-lower-tier-local-authority

| | Blwyddyn academaidd | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
| Israddedig llawnamser | 22 | 65 | 92 |
| Israddedig rhan-amser | 4. | 8 | 7 |
| Ôl-raddedig | 8 | 14 | 7 |
| Ôl-raddedig - Grant i Fyfyrwyr Anabl | 1 | 0 | 0 |

7.6 Credir ei bod yn annhebygol y bydd effaith sylweddol ar nifer y myfyrwyr a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

7.7 Mae estyn cymhwystra am gymorth ffioedd dysgu, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu i Chagosiaid yn sicrhau bod cymaroldeb o ran polisi gyda'r polisi presennol ar gyfer pobl o'r Tiriogaethau Tramor Prydeinig sydd wedi setlo yn y DU. Ni ddisgwylir i'r niferoedd a'r costau fod yn fawr (ac nid oes ffordd ddibynadwy o amcangyfrif unrhyw gynnydd).

7.8 Mae'n bosibl y bydd galluogi myfyrwyr sy'n derbyn Grantiau i Fyfyrwyr Anabl i fod yn gymwys am grantiau o'r fath yn ystod blwyddyn ryngosod, er mwyn gallu cael mynediad at gymorth technegol, gwaith atgyweirio neu amnewid offer a ddarparwyd neu a gymeradwywyd ar eu cyfer yn flaenorol o dan grantiau o'r fath, yn arwain at rai costau gweinyddol ychwanegol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y costau'n fach gan fod disgwyl i nifer y myfyrwyr sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eu blwyddyn ryngosod fod yn fach iawn. Mae llai na 1% o fyfyrwyr yn derbyn Grantiau i Fyfyrwyr Anabl (78,000 o geisiadau, 3,500 o ddyfarniadau) ac ers 2020 dim ond 4 o'r rhai a dderbyniodd y grant sydd wedi ymgymryd â blwyddyn ryngosod.

7.9 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r diwygiadau mewn perthynas â grantiau teithio i fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal, unigolion nad yw eu domisil yn y DU a dileu cyfeiriadau diangen at KESS 2.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2025 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 9. Asesu ar ôl gweithredu

9.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol. Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith.